

# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1A

## YMESTYN TERFYNAU AMSER APÊL

### Cyflwyniad

1. Mae parti sy'n apelio yn erbyn penderfyniad gan yr Awdurdod Trethu/Swyddog Priso yn y mathau canlynol o achosion, yn gorfod gwneud hynny o fewn terfynau amser penodedig o dderbyn yr hysbysiad.
  - (a) Atebolrwydd Treth y Cyngor - 2 fis
  - (b) Hysbysiad Cwblhau Treth y Cyngor - 1 mis
  - (c) Hysbysiad Cosb Treth y Cyngor - 1 mis
2. **GALL** yr apêl gael ei wrthod os yw'n cael ei wneud y tu allan i'r terfynau hyn.
3. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r Llywydd awdurdodi'r apêl i gael ei ddi-ddanu y tu allan i'r terfynau amser, lle maent yn fodlon bod y methiant o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y person hwnnw.

### Deddfwriaeth

- Atebolrwydd Treth Cyngor - Adran 16 o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992 (DGLL 1992)
- Hysbysiad Cwblhau Treth Cyngor - Adran 17 o DGLL 1992 ac Atodlen 4A paragraff 4 o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1988 (DGLL 1988)
- Hysbysiad Cosb Treth Cyngor - Atodlen 3 paragraff 3(1) o DGLL 1992
- Rheol 29 o Reoliadau Tribiwnlys Priso Cymru 2010 (OS 2010/713)
  
- Hysbysiad Cwblhau Annomestig - Atodlen 4A paragraff 4 o DGLL 1988
- Hysbysiad Cosb Annomestig - Atodlen 9 paragraff 5A o DGLL 1988
- Rheoliadau 19, 20 a 23 Rheoliadau Trethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)

### Trefn

4. Rhaid i gais am estyniad o'r terfynau amser gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Llywydd a rhaid cynnwys y rheswm (rhesymau) pam na wnaed yr apêl o fewn y terfynau amser penodedig.
5. Bydd y Clerc Rhanbarthol yn cadarnhau derbyn y cais ac yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ystyried y cais.
6. Lle mae'r parti wedi methu â chynnwys y wybodaeth angenrheidiol, bydd y Clerc Rhanbarthol yn ysgrifennu i ofyn am y wybodaeth honno.

7. Wrth ystyried y cais, rhoir sylw i'r canlynol:

- Pryd y derbyniwyd yr hysbysiad?
- A oedd yr ymgeisydd yn gwybod am yr hawl i apelio a'r terfyn amser perthnasol?
- A yw'r ymgeisydd wedi gweithredu ar gyflymder rhesymol yn yr amgylchiadau?
- A yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o dystiolaeth/rhesymau i gyfiawnhau'r oedi, fel salwch, absenoldeb o'r cartref neu brofedigaeth?
- A oes angen gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd neu barti(on) eraill i'r apêl?

### **Penderfyniad**

8. Bydd penderfyniad yn cael ei gyhoeddi i'r ymgeisydd cyn gynted ag sy'n ymarferol.

### **Apêl Bellach**

9. Nid oes hawl bellach i apelio cyn y Tribiwnlys hwn yn erbyn penderfyniad y Llywydd i wrthod y cais.